

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant: Gweithio amlasiantaethol

Nicola Sharp-Jeffs, Maddy Coy a Liz Kelly

Mawrth 2017

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer cydlynwyr / prif weithwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) o unrhyw asiantaeth, ac ar gyfer y sawl sy'n cynllunio dulliau amlasiantaethol. Mae'n dwyn ynghyd negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol. [[Dolenni i'r Canllawiau Saesneg](#) a'r [Canllawiau Cymraeg](#)]

Negeseuon allweddol

- Mae camfanteisio rhywiol yn gallu digwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r rhan fwyaf sy'n dioddef, mae bechgyn a dynion ifanc hefyd yn profi camfanteisio.
- Gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i'r broblem – rhai sydd wedi cael eu cam-drin eisoes, sy'n ddiogartref, sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau, sydd ag anabledd, mewn gofal, i mewn ac allan o addysg, sydd wedi rhedeg i ffwrdd / wedi mynd ar goll o gartref neu ofal, neu sy'n gysylltiedig â gangiau.
- Mae helpu pobl ifanc sy'n profi camfanteisio rhywiol ac amharu ar gyflawnwyr yn brosesau cymhleth sy'n gofyn am ymyriadau priodol gan ystod o randdeiliaid.
- Mae dulliau amlasiantaethol yn galluogi sefydliadau i gyfrannu eu rôl benodol a hefyd i ddatblygu safbwyntiau a dulliau a rennir i amddiffyn pobl ifanc.
- Beth bynnag fo union gyfansoddiad y trefniant amlasiantaethol, y ffactor allweddol yw cydlynu.
- Pan fyddant yn digwydd ochr yn ochr ag ymrwymiad amlasiantaethol i rannu canlyniadau, mae manteision cydweithio clos yn cynnwys: rhannu arbenigedd; sefydlu disgwyliadau a dulliau a rennir; hwyluso rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl ifanc; rhannu adnoddau; a rhannu gwybodaeth i amharu ar gyflawnwyr.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

'Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant lle mae unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, i ddylanwadu neu i dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau a/neu (b) am fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd.'

([Diffiniad newydd Lloegr 2017](#))

Nid oes dim ond un ffordd o gyflawni CSE (Child Exploitation and Online Protection Centre, 2011; Berelowitz et al. 2012; Gohir, 2013; Research in Practice and University of Greenwich, 2015). Mae meithrin perthynas i bwrpas rhyw'n gyffredin mewn rhai ffurfiau o CSE, ond nid yw'n bresennol bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Gall gorgyffwrdd ddigwydd rhwng (Fox a Kalkan, 2016). camfanteisio ar-lein ac all-lein (Fox a Kalkan, 2016). Os yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cydweithredu ni ellir cymryd hynny fel cydsyniad: maent o dan oed yng ngolwg y gyfraith ac yn agored i sawl math o orfodaeth a rheolaeth. Mae cam-drin pŵer o'r fath yn debyg i'r hyn a welir mewn trais domestig a gall olygu nad yw plant a phobl ifanc yn gweld bod yr hyn sy'n digwydd iddynt yn fath o gam-drin.

Mae mwyafrif y troseddwyd yn ddynion, ac mae lleiafrif yn fenywod. Gall camfanteisio rhywiol hefyd gynnwys cymheiriaid mewn ffyrdd cymhleth – fel hwyluswyr, camdrinwyr neu dystion

(Firmin, 2011; Beckett et al. 2013). Er bod tystiolaeth yr holl ymchwil hyd yma'n dangos mai merched a menywod ifanc yw mwyaf y dioddefwyr, gall camfanteisio ddigwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Yr oedran cyfartalog pan fydd pryderon yn amlygu eu hunain gyntaf yw 12 i 15 oed, er bod astudiaethau diweddar yn dangos nifer cynyddol o atgyfeiriadau ymhlith rhai 8 i 11 oed, yn enwedig yn achos camfanteisio ar-lein (Yr Adran Addysg, 2017). Gwyddom lai am y camfanteisio ar rai o Gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a Chymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016; Sharp, 2013; Fox, 2016).

Nid oes y fath beth â dioddefwyr 'nodweddiadol'. Wedi dweud hynny, gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored nag eraill, ac amlygwyd ystod o ddangosyddion y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin blaenorol yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabled; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd /mynd ar goll; cysylltiadau â gangiau (Beckett et al. 2013; Brown et al. 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013). Ni wyddys a yw'r rhain yn berthnasol hefyd i bobl ifanc pan fydd y camfanteisio'n dechrau neu'n digwydd yn gyfan gwbl ar-lein, er bod rhai ffactorau'n ymddangos yn y ddau gyd-destun (Whittle et al. 2013). Nid yw dangosyddion yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Yr unig beth a awgrymir yw bod angen i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'u chwilfrydedd proffesiynol a'u crebwyll i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn achos pob person ifanc.

Dull integredig

Mae pwysigrwydd dull integredig o fynd i'r afael â chamfanteisio rhywiol trwy weithio amlasiantaethol yn cael ei gydnabod (Berelowitz et al. 2013; Cockbain et al. 2014; Jago et al. 2011; Pearce, 2014). Mae helpu pobl ifanc sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol ac amharu ar gyflawnwyr yn brosesau cymhleth sy'n gofyn am ymyriadau priodol gan ystod o randdeiliaid. Mae dulliau amlasiantaethol yn galluogi sefydliadau i gyfrannu eu rolau penodol tra'n datblygu ystod o gamau i amddiffyn pobl ifanc ac ymchwilio'n rhagweithiol i gamdrinwyr (Berelowitz et al. 2013). Mae canfyddiadau cynnar o Adolygiadau Troseddau Difrifol yn amlygu methiannau mewn ymatebion cydlynus (Myers a Carni, 2016; Sidebotham et al. 2016).

Nid oes un ffordd yn unig i ardaloedd lleol drefnu ymatebion amlasiantaethol i gamfanteisio rhywiol (Martin et al. 2014; Research in Practice, 2015). Gellir trefnu trefniadau diogelu trwy fforymau fel cyfarfodydd Camfanteisio Rhywiol Amlasiantaethol (MASE) a/ neu gynlluniau fel Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH).

Gall trefniadau amlasiantaethol integreiddio camfanteisio rhywiol â materion hysbys cysylltiedig fel pobl ifanc ar goll, masnachu mewn pobl, cysylltiadau â gangiau, trais yn erbyn menywod a merched, a chyffuriau ac alcohol (Barnardo's, 2012; Harris et al. 2015; Marshall, 2014; Y Swyddfa Gartref, 2014). Er enghraifft, gall ysgolion roi data i awdurdodau lleol ar blant nad ydynt yn cael addysg, plant sy'n absennol heb ganiatâd, yn ogystal â phlant sy'n cofrestru am ddiwrnod yn rheolaidd ond nad ydynt yn mynychu gwersi. Gellir croesgyfeirio hyn â data awdurdodau lleol ar blant y dywedir wrth yr heddlu sydd ar goll er mwyn canfod plant a all fod angen ymyriad (All-Party Parliamentary Group for Runaway and Missing Children and Adults, 2016; Gohir, 2013).

Mewn rhai ardaloedd, mae natur y gwaith yn rhyngasiantaethol. Er enghraifft, bydd gweithwyr sy'n arbenigo mewn camfanteisio rhywiol yn cael eu cydleoli mewn lleoliadau statudol e.e. â'r heddlu, gwasanaethau plant a thimau troseddau ieuentid (Harris et al. 2015; Coy, 2016a). Mae'r lleoliad yn arwyddocaol, gan fod gan orsafoedd heddlu a lleoliadau ieuchyd gysylltiadau

negyddol i lawer o blant a phobl ifanc (Children's Commissioner for England, 2016). Dylid dewis adeiladau lle gall pobl ifanc deimlo'n gyfforddus a lle na fyddant yn teimlo cywilydd na beirniadaeth (Drew, 2016; Gilligan, 2016).

Nid yw camfanteisio rhywiol yn dod i ben pan fydd y dioddefwr yn 18 oed (Coy, 2016b) ac mae gwasanaethau i oedolion yn y diwydiant rhyw a thrais yn erbyn menywod yn bartneriaid allweddol. Gall ystod eang o weithgareddau gael eu cynnwys mewn dulliau amlasiantaethol, gan gynnwys: canfod pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio rhywiol; atal ac ymyrraeth gynnar; darparu cymorth; amharu ar gyflawnwyr; hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn y gymuned (Harris et al. 2015).

Beth bynnag fo union gyfansoddiad y trefniant amlasiantaethol, y ffactor allweddol yw cydlynu (Dodsworth a Larsson, 2014). Pan fydd yn digwydd ochr yn ochr ag ymrwymiad amlasiantaethol i rannu canlyniadau ar y lefel strategol (Lebloch a King, 2006) mae manteision cydweithio clos yn cynnwys y canlynol:

■ Rhannu arbenigedd

Bydd pob asiantaeth yn cyfrannu arbenigedd at weithio amlasiantaethol a'r gallu i ddod i gysylltiad â phobl ifanc mewn cyd-destunau gwahanol (Firmin, 2016). Pan fydd sefydliadau'n gallu dysgu yn sgil arferion gweithio'i gilydd a herio arferion gweithio'n broffesiynol, gall hyn arwain at ymatebion gwell (Martin et al. 2014; Coy, 2016a; Hughes a Thomas, 2016). Y dulliau amlasiantaethol gorau yw'r rhai hynny sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cynnwys ystod o asiantaethau ac ymarferwyr. Mae rhai modelau'n statudol eu natur, ac yn cynnwys: gofal cymdeithasol plant; yr heddlu; iechyd; addysg; prawf; tai; a'r gwasanaeth troseddau ieuencid. Mae eraill yn fwy cymunedol ac maent hefyd yn cynnwys y sector gwirfoddol, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill (Barnardo's, 2012; Berelowitz et al. 2015; D'Arcy et al. 2015; Harris et al. 2015; Research in Practice and University of Greenwich, 2015; Palmer a Jenkins, 2014; Smeaton, 2013). Er enghraifft, gall ymgysylltu arloesol fel rhan o'r model cymunedol hefyd gynnwys perchnogion gwestai, llety gwely a brecwast a gyrwyr tacsis (Y Swyddfa Gartref, 2014).

■ Dulliau hyblyg

Mae'r sector gwirfoddol yn aml yn cael ei dangynrychioli mewn trefniadau amlasiantaethol ond mae'n allweddol i weithio llwyddiannus (Berelowitz et al. 2015; Casey, 2015; Harris et al. 2015; Jay, 2014). Mae hyblygrwydd gweithwyr y sector gwirfoddol yn aml yn eu galluogi i estyn allan a helpu pobl ifanc a'u teuluoedd mewn ffyrdd sy'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol (D'Arcy et al. 2015; Dodsworth a Larsson, 2014). Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth ymgysylltu â phobl ifanc o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (Gohir, 2013); a phobl ifanc anabl (Smeaton, 2013). Hefyd, gall y sector gwirfoddol fod yn 'bresenoldeb sy'n gysur'; trwy gynnig arbenigedd ar y mater a rhoi'r agenda genedlaethol ar waith mewn cyd-destun lleol (Harris et al. 2015).

■ Sefydlu disgwyliadau a dulliau a rennir

Gellir datblygu'r rhain trwy hyfforddiant amlasiantaethol sy'n amlygu gwahanol arferion gweithio a galluoedd asiantaethau, ac mae'n hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu safbwyntiau a rennir (Martin et al. 2014; Dodsworth a Larsson, 2014). Gall hyn, yn ei dro, helpu i feithrin parch tuag at ei gilydd ymhlith asiantaethau yn ogystal ag ymddiriedaeth (Beckett, 2015; Y Swyddfa Gartref, 2014). Ar yr un pryd, mae'n hanfodol bod sefydliadau arbenigol sy'n gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc, sy'n aml yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod yn gallu bod yn fwy hyblyg na gwasanaethau

statudol, yn cael eu galluogi i gadw'u hunaniaeth a'u dulliau gweithio eu hunain (Coy, 2016a; Harris et al. 2015). Dylai creu parch tuag at arferion gweithio gynnwys rhoi sylw i'r ddynmeg pŵer a all fodoli o fewn trefniadau gweithio amlasiantaethol, fel diffyg gwerthfawrogiad i statws a chyfraniad asiantaethau anstatudol (Jay, 2014; Marshall, 2014; Sharp-Jeffs, 2016).

■ Hwyluso rhannu gwybodaeth i ddiogelu pobl ifanc

Gall rhannu gwybodaeth yn amserol ac effeithiol helpu i ganfod yn gynnar pobl ifanc sy'n profi camfanteisio rhywiol. Gall pryderon sy'n ymddangos i ddechrau fel rhai lefel isel wrth edrych arnynt ar eu pen eu hunain ddwysáu wrth edrych arnynt ochr yn ochr â'r hyn sy'n hysbys i asiantaethau eraill (Y Swyddfa Gartref, 2014). Er enghraifft, gall ymweliadau â gwasanaethau iechyd rhywiol neu nyrs ysgol gyd-fynd â merched ifanc yn mynd ar goll neu'n dychwelyd ar ôl bod ar goll (Myers a Carmi, 2016). Gall rhannu gwybodaeth wella prosesau penderfynu gweithwyr proffesiynol (Leon a Raws, 2016; Y Swyddfa Gartref, 2014) ac asesiadau o angen mwy cyfannol (Beckett, 2015; Beckett a Warrington, 2015; Harris et al. 2015; Myers a Carmi, 2016). Ar yr un pryd, ni ellir edrych ar rannu gwybodaeth mewn cyd-destunau amlasiantaethol fel ymyriad ynddo'i hun, rhaid iddo fod yn gysylltiedig â gweithredu amddiffynnol a/neu ataliol.

Gall pryderon am rwymedigaethau cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth, yn enwedig mewn gwasanaethau plant ac iechyd (Berelowitz et al. 2015; Dodsworth a Larsson, 2014; Y Swyddfa Gartref, 2014; Pearce, 2014). Fodd bynnag, mae ymddiriedaeth a pharchu preifatrwydd yn hanfodol i bobl ifanc. Gall rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, yn enwedig heb yn wybod iddynt neu heb ganiatâd pobl ifanc, ei gwneud yn anodd i feithrin perthnasoedd fel llwybr tuag at help (Coy, 2016a). Dylai asiantaethau sicrhau bod rhannu gwybodaeth a'r hyn a all ddigwydd nesaf wedi'i drafod â phobl ifanc ac â'i gilydd.

■ Rhannu adnoddau

Gall trefniadau amlasiantaethol roi sylw i faterion ymarferol pwysig fel sefydlu llwybrau atgyfeirio, creu gweithdrefnau i gofnodi achosion, datblygu protocolau rhannu gwybodaeth a chreu systemau TG ar gyfer storio a dadansoddi gwybodaeth (Y Swyddfa Gartref, 2014; Myers a Carmi, 2016). Er y gall costau cychwynnol fod ynghlwm wrth gwmpasu natur a graddfa CSE yn lleol, ac yna datblygu systemau a rennir, gellir defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd fel sail i ac i ategu ceisiadau am yr adnoddau sydd eu hangen i helpu gwaith yn y maes hwn (Jago et al. 2011).

Gall systemau mwy effeithiol arwain at ddyrannu adnoddau'n well, sy'n golygu gwneud defnydd mwy effeithlon ohonynt (Jago a Pearce, 2008). Mae'n bwysig cadw hyn mewn cof pan fod perygl i doriadau mewn adnoddau (a thoriadau pellach) wneud i asiantaethau gilio i ganolbwyntio ar eu swyddogaethau craidd a chyfyngedig (Firmin, 2016).

Rhannu gwybodaeth i amharu ar gyflawnwyr

Mae tueddiad weithiau mewn ymatebion i CSE i ganolbwyntio ar y dioddefwyr yn unig, gan achosi stigma pellach iddynt a gwneud y cyflawnwyr yn anweladwy (Gohir, 2013). Gall gweithio amlasiantaethol hwyluso rhannu gwybodaeth i helpu i amharu ar y cyflawnwyr ac i'w herlyn (Hughes a Thomas, 2016; Y Swyddfa Gartref, 2014).

“Mi gawsom ni gyfarfod amlasiantaethol - daeth pawb â phopeth roddent yn ei wybod a chafodd hynny ei ddefnyddio gan bawb... cafodd wal ei chlririo a rhoddwyd enwau, cysylltiadau hysbys, manau y gwyddom lle maent yn mynd a chafodd y cyfan ei fapio gan edrych ar y cysylltiadau penodol”¹

Gellir gwneud hyn trwy gyfrannu gwybodaeth i ddatblygu ‘proffiliau problemau’ rhanbarthol a gynhyrchir gan ddadansoddwyr yr heddlu (Berelowitz et al. 2013). Gall gwybodaeth gynnwys: enwau – gan gynnwys ffugenwau, cyfeiriadau, ‘manau problemus’, rhifau ffonau symudol, rhifau ceir a gwybodaeth am y rôl sy’n cael ei chwarae gan fusnesau lleol (Hughes a Thomas, 2016; Drew, 2016; Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi, 2016; Myers a Carmi, 2016; Nelson, 2016; Palmer a Jenkins, 2014; Pona, 2016).

Trwy wneud hyn, gall gweithio amlasiantaethol gyfrannu at ddatblygu rhwydwaith cymunedol amddiffynnol (Nelson, 2016; Firmin, 2016). Nid yn unig y mae rhannu gwybodaeth yn arwain gan ganfod patrymau mewn erledigaeth a chyflawni, ond gall hefyd olygu bod asiantaethau mewn sefyllfa well i ddeall arwyddocâd y wybodaeth a gânt.

Mae’n amlwg bod gweithio amlasiantaethol yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at amddiffyn plant a phobl ifanc a dwyn y rhai sy’n camfanteisio i gyfrif pan fydd ystod eang o asiantaethau wedi ymgysylltu ac ymroi’n llwyr i hynny.

¹ Cyfeiriad yn Jago et al. 2011

Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio’n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Yr Heddlu
- Comisiynu gwasanaethau’r heddlu’n strategol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Staff sy’n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion

Cyfeiriadau

All-Party Parliamentary Group for Runaway and Missing Children and Adults (2016) *Inquiry into the safeguarding of 'absent' children 'It is good when someone cares'* London: The Children's Society/Missing People

Barnardo's (2012) *Cutting them free How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation?* Barking: Barnardo's

Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Belfast: Barnardo's

Beckett, H. (2015) *Evaluation of Safe Choices/PSNI Co-Located Pilot Initiative* Luton: University of Bedfordshire

Beckett, H. gyda Brodie I., Factor F., Melrose M., Pearce J., Pitts J., Shuker L. a Warrington C. (2013) *'It's Wrong...But You Get Used to It': A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence and Exploitation* Luton: University of Bedfordshire

Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: University of Bedfordshire

Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. a Gulyurtlu, S. (2012) *"I thought I was the only one. The only one in the world" interim report* London: Office of the Children's Commissioner

Berelowitz, S., Clifton, J., Firmin, C., Gulyurtlu, S. a Edwards, C. (2013) *"If only someone had listened": Office of the Children's Commissioner Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups. Final report.* London: Office of the Children's Commissioner

Berelowitz, S., Ritchie, G., Edwards, G., Cabrita Gulyurtlu, S. S. a Clifton, J. (2015) *If it's not better, it's not the end - Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups: One year on* London: Office of the Children's Commissioner

Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Coventry University

Casey, L. (2015) *Reflections on child sexual exploitation* London: Department for Communities and Local Government

Child Exploitation and Online Protection Centre (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* London: Child Exploitation and Online Protection Centre

Children's Commissioner for England (2015) *Protecting children from harm: a critical assessment of child sexual abuse in the family network in England and priorities for action.* London: Children's Commissioner for England

Cockbain, E., Brayley, H. ac Ashby, M. (2014) *Not just a girl thing: A large scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK* Location: University College London/Barnardo's/NatCen

Coy, M. (2009) 'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 18(4): 254-266

- Coy, M. (2016a) *'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report* London: CWASU
- Coy, M. (2016b) *Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses* Critical Social Policy Cyhoeddwyd ar-lein 5 Mai
- D'Arcy, K., Dhaliwal, S., Thomas, R. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *Families and Communities Against Child Sexual Exploitation (FCASE) Final Evaluation Report* Luton: University of Bedfordshire, International Centre
- Yr Adran Addysg (2017) *Definition and a guide for practitioners, local leaders and decision makers working to protect children from child sexual exploitation* London: Yr Adran Addysg
- Dodsworth, J. a Larsson, B. (2014) *An examination of the perspectives and experiences of police officers working with children and young people at risk of, or involved in, child sexual exploitation* Norwich: Centre for Research on Children and Families, University of East Anglia
- Drew, J. (2016) *An independent review of South Yorkshire Police's handling of child sexual exploitation, 1997-2016* Yorkshire: Drew Review
- Firmin, C. (2011) *This is it. This is my life...The Female Voice in Violence Project Final report* London: Race on the Agenda
- Firmin, C. (2016) *A strategic needs assessment: interim report* Luton: University of Bedfordshire
- Fox, C. (2016) *'It's not on the radar' The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. a Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Gilligan, P. (2016) Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation? *Child Abuse Review* 25(2): 115-127
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* London: Muslim Women's Network UK
- Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Her Majesty's Inspectorate of Constabulary (2016) *Missing children: who cares? The police response to missing and absent children* London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary
- Harris, J., Roker, D., D'Arcy, K. a Shuker, L. gyda Brodie, I. a Pearce, J. (2015) *CSEFA Hub and Spoke Evaluation: Year Two Progress Report and Interim Findings* Luton: University of Bedfordshire
- Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Y Swyddfa Gartref (2014) *Multi Agency Working and Information Sharing Project: Final Report* London: Y Swyddfa Gartref

- Hughes, C. a Thomas. M. (2016) *You can trust me... Young people going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales* Barking: Barnardo's
- Jago, S. a Pearce, J. (2008) *Gathering evidence of the sexual exploitation of children and young people: A scoping exercise* Luton: University of Bedfordshire
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: University of Bedfordshire
- Jay, A. (2014) *Independent Inquiry into Child Sexual Exploitation in Rotherham 1997–2013*.
Ar gael ar-lein:
http://www.rotherham.gov.uk/downloads/file/1407/independent_inquiry_cse_in_rotherham
- Klatt, T., Cavner, D. ac Egan, V. (2014) Rationalising predictors of child sexual exploitation and sex trading *Child Abuse Neglect* 38(2): 252-260
- Lebloch, E. K. a King, S. (2006) Child sexual exploitation: A partnership response and model intervention *Child Abuse Review* 15: 362-372
- Leon, L. a Raws, P. (2016) *Boys don't cry: improving identification and disclosure of sexual exploitation among boys and young men trafficked to the UK* London: Children's Society
- Martin, L., Brady, G., Kwhali, J., Brown, S. J., Crowe, S. a Matouskova, G. (2014) *Social workers' knowledge and confidence when working with cases of child sexual abuse: what are the issues and challenges?* London: National Society for the Prevention of Cruelty to Children
- Marshall, K. (2014) *Child sexual exploitation in Northern Ireland: Report of the Independent Inquiry* Belfast: Criminal Justice Inspection, Education and Training Inspectorate and Regulation and Quality Improvement Authority
- Melrose, M. (2013) *Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp.9-22 Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Myers, J. a Carmi, E. (2016) *The Brooke serious case review into child sexual exploitation: identifying the strengths and gaps in the multi-agency responses to child sexual exploitation in order to learn and improve* Bristol: Bristol Safeguarding Children Board
- Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support* Bristol: Policy Press
- Palmer, E. a Jenkins, P. (2014) *Parents as Partners in Safeguarding Children: an evaluation of Pace's work in four Lancashire Child Sexual Exploitation Teams* Leeds: Parents against child sexual exploitation (Pace)
- Pearce, J. (2014) 'What's Going On' to Safeguard Children and Young People from Child Sexual Exploitation: A Review of Local Safeguarding Children Boards' Work to Protect Children from Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 23(3) 159:170
- Pona, I. (2016) *Safeguarding children and young people who go missing in London* London: Cymdeithas y Plant
- Research in Practice (2015) *Working Effectively to Address Child Sexual Exploitation: An evidence scope* Totnes: Research in Practice

Research in Practice and University of Greenwich (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: A briefing* Totnes: Research in Practice

Sharp, N. (2013) Missing from discourse: South Asian young women and sexual exploitation in Melrose, M. a Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* t. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan

Sharp-Jeffs, N. (2016) *A lot going on: the links between going missing, forced marriage and child sexual exploitation* Luton: University of Bedfordshire, International Centre (traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi)

Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. a Sorensen, P. (2016) *Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014: final report* London: Department for Education

Smeaton, E. (2013) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research

Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341-50

Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A. a Collings, G. (2013) *A Review of young people's vulnerabilities to online grooming* Aggression and Violent Behavior, 18, 135-146

**Y ganolfan arbenigedd ar
gam-drin plant yn rhywiol**

www.csacentre.org.uk

©Mawrth 2017